# Argymhellion polisi Iechyd Meddwl ôl-16

Prifysgolion Cymru Universities Wales

ColegauCymru CollegesWales

ucm cymru undeb cenedlaethol y myfyrwyr

nus wales national union of students

AMOSSHE The Student Services Organisation

# Cyflwyniad

Yng ngwanwyn 2021, clywodd y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion gan sefydliadau ac undebau myfyrwyr am yr ymyriadau sydd wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i fwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru, a'r ffyrdd arloesol y maent yn cefnogi iechyd meddwl a lles myfyrwyr.

Wedi hynny, sefydlwyd gweithgor[1] i edrych ymhellach ar gymorth iechyd meddwl a lles i fyfyrwyr[2] mewn addysg ôl-16, er mwyn datblygu rhai egwyddorion i Lywodraeth Cymru, i ystyried eu hymgorffori mewn polisi iechyd meddwl a lles wrth symud ymlaen.

Mae ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar wedi'i blethu drwy'r argymhellion hyn. Dylai'r sector gydweithio i ddarparu dull rhagweithiol o gadw myfyrwyr yn iach yn feddyliol. Gwneir yr argymhellion hefyd yng nghyd destun Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys blaenoriaethu buddsoddiad mewn iechyd meddwl, ac ailgynllunio gwasanaethau gan hyrwyddo dull 'dim drws anghywir' o ran cymorth iechyd meddwl. Felly mae ein hargymhellion yn cydnabod y gall y cyflwyniadau risg uchaf ddod i'r amlwg yn gyntaf mewn lleoliadau addysg bellach ac uwch.

Mae'r argymhellion yn cyd-fynd â fframwaith Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, gan weithio i gyflawni'r saith nod lles y mae'n ei gosod. Yn sail i'r gwaith hwn, dilynir pum ffordd o weithio'r Ddeddf, gydag egwyddorion hirdymor a chydweithredol yn ganolog i'r argymhellion.

*[1] Rhestrir aelodau'r gweithgor ar ddiwedd y ddogfen hon*

*[2] Rydym wedi defnyddio'r gair 'myfyrwyr' drwy'r argymhellion hyn er mwyn symlrwydd, ond rhennir yr heriau ar bob lefel o'r sector ôl-16 ac maent yn cynnwys myfyrwyr, dysgwyr, prentisiaid a hyfforddeion.*

# Egwyddorion

## 1. Profiad cyfartal

Dylai myfyrwyr allu gael mynediad i safon gyson o gymorth[3], waeth ble maent yn byw a myfyrio – er efallai bydd rhywfaint o wahaniaeth yn y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru, dylid cytuno ar isafswm o gymorth disgwyliedig ar gyfer unrhyw un a phob myfyriwr.

Dylai myfyrwyr gael eu trin yn gyfartal â'r boblogaeth ehangach, wrth ystyried eu hanghenion penodol. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r effaith ar unigolion sy'n adleoli am gyfnodau byrrach (h.y. yn ystod amser tymor).

### Argymhellion:

- Annog sefydliadau i gael polisi lles ar gyfer arfogi myfyrwyr i arfer hunanreolaeth a hunanofal. Dylid gosod hyn mewn cyd-destun nad yw'n patholegi pob achos lle mae unigolion yn myfyrio'n rhagweithiol ar eu lles.
- Llywodraeth Cymru yn ystyried a chynnwys lleisiau myfyrwyr wrth ddatblygu polisi iechyd.
- Ei gwneud yn ofynnol cynnwys lleisiau myfyrwyr a staff wrth ddylunio a darparu gwasanaethau lleol, a chynnwys poblogaethau myfyrwyr wrth gynllunio gofal iechyd, yn enwedig defnyddwyr gwasanaethau[4].
- Llywodraeth Cymru yn adolygu ac yn mapio gwasanaethau iechyd meddwl sydd ar gael ledled Cymru i fyfyrwyr mewn addysg ôl-16, er mwyn nodi bylchau a chyhoeddi canllaw ar y cymorth sydd ar gael gan sefydliadau gofal iechyd, a'r trydydd sector.

---

## 2. Rhannu gwybodaeth yn briodol ac yn effeithiol

Er mwyn atal myfyrwyr rhag 'syrthio drwy'r bylchau' mae angen galluogi cyrff perthnasol i rannu gwybodaeth briodol bo hynny er budd y claf/myfyriwr.

### Argymhellion:

- Llywodraeth Cymru i ddiweddaru a darparu canllawiau clir ar rannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau iechyd a sefydliadau addysg mewn perthynas â materion iechyd meddwl ar gyfer lleoliadau ôl-16, gan fynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch GDPR a deddfwriaeth diogelu data.
- Cefnogi a mynnu systemau gofal iechyd (gan gynnwys gofal sylfaenol, gofal brys, gofal eilaidd ac arbenigol) i ddatblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda gwasanaethau cymorth ysgol/coleg/prifysgol a darpariaeth trydydd sector.
- Ystyried dull cyffredin o rannu data rhwng darparwyr addysg a byrddau iechyd yng Nghymru, er enghraifft drwy roi pasbortau meddygon teulu i fyfyrwyr.
- Ystyried materion trawsffiniol sy'n effeithio ar rannu gwybodaeth, a sut y gellid mynd i'r afael â hwy.

[3] *Gall hyn gynnwys darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn ychwanegol at y cymorth sydd ar gael gan ddarparwyr addysg*
[4] *Yn enwedig poblogaethau myfyrwyr a all newid yn ystod y flwyddyn academaidd – cyfeiriadau ar wahân yn ystod y tymor/astudio oddi cartref/ardal wahanol*

## 3. Rolau, cylchoedd gwaith a chyfrifoldebau clir

Mae angen i fyfyrwyr, sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus ddeall a chytuno ar gylch gwaith y cymorth sydd ei angen gan wahanol gyrff, a phwy sy'n gyfrifol. Er enghraifft, dealltwriaeth gyffredin mai rôl sefydliadau addysgol yn bennaf yw cefnogi myfyrwyr i ymgymryd â'u hastudiaethau.

Mae dealltwriaeth gyffredin o ba fath o sefyllfa sy'n briodol ar gyfer ymateb o fewn lleoliad addysg, a beth y dylid ei gyfeirio at y gwasanaethau iechyd statudol, yn hanfodol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

### Argymhelliad:

- Llywodraeth Cymru i gydlynu gwaith sy'n dod â gwasanaethau ynghyd i gynhyrchu canllawiau sy'n manylu ar atebolrwydd gwasanaethau a phwy sy'n gyfrifol – gwasanaethau iechyd, yr heddlu, sefydliadau addysgol, darparwyr lleoliadau; gall hyn olygu addasu llwybrau atgyfeirio neu ddiffinio'n well y berthynas rhwng gwahanol gyrff a sefydliadau, yn enwedig pan fo unigolion yn wynebu argyfwng.

---

## 4. Cefnogaeth Ychwanegol ar gyfer pontio

Wrth i bobl ifanc symud ymlaen ar eu taith addysgol, mae pontio'n digwydd; er enghraifft wrth iddynt symud o ysgol i goleg, coleg i brifysgol, o addysg i gyflogaeth, neu yn ôl i ddysgu fel oedolion. Gallant hefyd symud oddi cartref, ac felly oddi wrth eu strwythurau a'u gwasanaethau cymorth. Gall hyn ddigwydd ar yr un pryd â chael ei symud o gefnogaeth a ddarperir gan CAMHS i wasanaethau oedolion o dan y GIG. I ddysgwyr sydd â chyflyrau hirdymor, neu sydd mewn argyfwng, gall hyn waethygu cyflyrau neu greu risgiau.

### Argymhelliad:

- Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r ffordd orau o wella'r berthynas rhwng CAMHS a gwasanaethau oedolion gan roi ystyriaeth benodol i ffiniau oedran ar gyfer pobl o dan 25 oed ac o bosib gwasanaeth penodol ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed.
- Cyllid parhaus drwy Adnewyddu a Diwygio ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi pontio gan gynnwys Barod ar gyfer Prifysgol a'r hyn sy'n cyfateb mewn addysg bellach, gan gynnwys addysg oedolion.
- Ystyried ffyrdd y gall prifysgolion weithio gyda cholegau ôl-16/ysgolion lleol i gefnogi iechyd meddwl dysgwyr cyn iddynt drosglwyddo i addysg uwch.

## 5. Cyllid cynaliadwy, hirdymor

Mae darparu cymorth effeithiol ar gyfer iechyd meddwl a lles yn gofyn am gynnig gwasanaeth sefydlog, hirdymor. Mae llawer o fesurau cymorth iechyd meddwl effeithiol yn cynnwys rhyw fath o ryngweithio person-i-berson. Felly, er bod cyllid ad-hoc sy'n seiliedig ar brosiectau, o gymorth yn y tymor byr i annog arloesedd, gall fod yn llai effeithiol yn y maes polisi hwn. Mae'n effeithio ar gadw staff mewn marchnad swyddi lle mae galw mawr am staff iechyd meddwl cymwysedig, ac mae'n atal darparwyr gwasanaethau rhag datblygu llwybrau cymorth cyson.

Mae angen dull aml-flwyddyn o ariannu un pwrpas er mwyn rhoi cyfle i ddarparwyr addysg ôl-16 gael yr effaith fwyaf, ar ein dysgwyr a'n cymunedau. Byddai'n darparu'r gallu i wreiddio cymorth iechyd meddwl a lles yn y cwricwlwm ac yn darparu gwasanaethau cymorth sy'n briodol i'r sector sy'n dileu rhwystrau i lwyddiant ac yn helpu dysgwyr i ymdopi ag argyfyngau personol sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Byddai'n helpu sefydliadau i gwrdd â'r heriau hirdymor a grëwyd gan bandemig Covid-19.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i effaith hirdymor Covid-19 ar gymdeithas a'r angen i raddio dysgwyr sy'n iach yn feddyliol ac yn cynrychioli ein gweithlu yn y dyfodol.

### Argymhelliad:

- Llywodraeth Cymru i gymryd hyn i ystyriaeth wrth osod cyllidebau a gweithio gyda chyrff priodol (CCAUC ac yn ôl pob tebyg y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ddiweddarach) i wreiddio cyllid tymor hwy ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a lles ar draws addysg ôl-16.
- Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r sector i ystyried opsiynau cost-effeithiol i greu gwasanaethau cyffredin, sy'n hygyrch i bob dysgwr lle mae hyn yn diwallu angen lleol.

---

# Atodiad

## Aelodaeth gweithgor

- AMOSSHE
- ColegauCymru
- UCM Cymru
- Prifysgolion Cymru
- Y Gynghrair Cymraeg ar gyfer Iechyd Meddwl
- Student Minds
- National Society of Apprentices

Prifysgolion Cymru Universities Wales

ColegauCymru CollegesWales

ucm cymru undeb cenedlaethol y myfyrwyr nus wales national union of students

AMOSSHE The Student Services Organisation

Mae Prifysgolion Cymru yn cynrychioli buddiannau prifysgolion yng Nghymru ac yn Gyngor Cenedlaethol Prifysgolion y DU. Mae aelodaeth Prifysgolion Cymru yn cynnwys Is-gangellorion holl brifysgolion Cymru, a Chyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Ein cenhadaeth yw cefnogi system addysg prifysgol sy'n trawsnewid bywydau trwy'r gwaith y mae prifysgolion Cymru yn ei wneud gyda phobl a lleoedd Cymru a'r byd ehangach.

AMOSSHE Mae'r Sefydliad Gwasanaethau Myfyrwyr yn gymdeithas aelodaeth broffesiynol ar gyfer arweinwyr Gwasanaethau Myfyrwyr mewn addysg uwch yn y DU. Mae AMOSSHE yn hysbysu ac yn cefnogi arweinwyr Gwasanaethau Myfyrwyr yn y DU, ac yn cynrychioli, yn eiriol dros ac yn hyrwyddo profiad myfyrwyr ledled y byd.

Elusen addysg ôl-orfodol yw ColegauCymru. Rydym yn hyrwyddo budd cyhoeddus addysg a dysgu ôl-orfodol. Rydym hefyd yn cynnull y Fforwm Prifathrawon addysg bellach (AB), sy’n cynrychioli colegau Addysg Bellach a sefydliadau AB (SABau) yng Nghymru. Mae ColegauCymru hefyd yn gwneud gwaith ymchwil, datblygu polisi ac yn darparu cymorth ymarferol i golegau AB yng Nghymru, gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith (DSW) sy’n rhan allweddol o weithgarwch colegau AB.

UCM Cymru yw corff cynrychioliadol myfyrwyr yng Nghymru. Rydym yn hyrwyddo, amddiffyn ac ymestyn hawliau mwy na 300,000 o fyfyrwyr coleg, myfyrwyr prifysgol a phrentisiaid mewn sefydliadau addysg ledled Cymru.

Gan weithio ar ran ein hundebau myfyrwyr sy’n aelodau, rydym yn defnyddio pŵer cyfunol myfyrwyr trwy gynrychiolaeth ddemocrataidd ac ymgyrchu cynhwysol.

# Argymhellion polisi Iechyd Meddwl ôl-16

**Prifysgolion Cymru**
info@uniswales.ac.uk
uniswales.ac.uk